**CYFARFOD Y CYNGOR** **16eg IONAWR 2019**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr aelodau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 19eg Rhagfyr 2018 | - | Rhifau Cofnod | 100 - 115 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 19eg Rhagfyr 2018 | - | Rhifau Cofnod | 41 - 44 |

## 3. CYFLWYNIAD: GWASANAETHAU PARCIO CEIR SIR DDINBYCH

Ymhellach i gofnod rhif 109 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Rhagfyr 2018, croesawu Mr Emlyn Jones a Mr Mike Jones o Gyngor Sir Ddinbych, i hysbysu'r Cyngor o gynigion yn ymwneud â dyfodol gwasanaethau parcio yn y sir.

## 4. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

## 5. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU RHAGFYR 2018

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

## 6. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

## 7. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL AR GYFER 2018/19

Derbyn a phenderfynu ar gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeëdig) mewn perthynas â phenodi archwilwyr y Cyngor.

8. **ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL INTERIM 2018/19**

Ystyried yn ffurfiol a derbyn yr adroddiad Archwilio Mewnol (copi'n amgaeëdig).

9. **GOHEBIAETH: TREFNYDD APEL Y PABI, Y RHYL**

Derbyn a phenderfynu ar ohebiaeth gan yr uchod (copi'n amgaeëdig).

10. **CYFLWYNIAD: COFNOD O FLWYDDYN YN Y SWYDD**

Ar ran y Cyngor Tref, y Maer i gyflwyno cofnod o'i flwyddyn fel Maer 2017 – 2018 i'r Cynghorydd A. R. James.

11. **GWYBODAETH: LLYWODRAETH CYMRU – AROLWG O'R SECTOR CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU**

Derbyn gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'r uchod (copi'n amgaeëdig).

12. **EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

13. **HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

14. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.